

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD GORFFENNAF 2021
6 Medi 2021, 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

1. Presennol

Dafydd Watts, Glyn Griffiths,

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Datgan Diddordeb

Dim

3. Ymddiheuriadau

Eleri Owen, Dion Roberts, Elin Jones, Llio Griffiths, Richard Jones

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 5 Gorffennaf 2021

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Glyn Griffiths

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Garreg Frech

Cytunwyd i drefnu cyfarfod rhithiol ddechrau Hydref. Byddai cynnal cyfarfod ffisegol yn Siop a Chaffi Llanfrothen yn anodd, oherwydd byddai'n rhaid cadw pellter ac ni fyddai'n bosibl gwybod faint o'r cyhoedd fyddai'n debygol o fynychu tan ychydig cyn dyddiad cynnal y cyfarfod ei hun.

Bydd yn rhaid llunio taflen i'w danfon i'r holl gartrefi ar restr etholwyr cymuned Llanfrothen yn rhoi digon o amser i'r rhai oedd am fynychu i gael dolen Zoom er mwyn ymuno a'r cyfarfod. Byddai angen trefnu cyfieithydd hefyd, gwneud yn siŵr fod swyddogion Cynefin ac ADRA ar gael i fynychu, a threfnu hwylusydd

5.2 13 Garreg Frech

Mae'r aelod o'r cyhoedd wedi danfon llythyr at Gyngor Gwynedd yn cwyno am sefyllfa 13 Garreg Frech, ond yr e-byst wedi eu dychwelyd. Gall hyn fod oherwydd bod gan Wynedd Brif Weithredwr newydd a'r cyfeiriad e-bost felly wedi newid.

Bellach mae llythyr wedi mynd at y Prif Weithredwr newydd, a disgwylir yr ymateb

5.3 Y Ganolfan

Disgwylir i'r beipen sgrap gael ei symud.

Mae'r biniau brown oedd yn llawn gwastraff wedi cael eu gwagio am ddim gam Gyngor Gwynedd.

Does dim diddordeb gan Gofod Gwag i ddefnyddio'r Ganolfan.

5.4 Ynni Hydro Croesor

Bydd Ymddiriedolwyr Brondanw yn trafod sylwadau'r cyngor cymuned ar fuddiannau cymunedol y cynllun Hydro yn eu cyfarfod ar 26 Hydref.

Gofynnwyd i'r Clerc atgoffa asiant yr Ymddiriedolwyr o'r angen i drefnu'r cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y cyngor cymuned a'r Ymddiriedolwyr, fel sy'n arferol tua diwedd bob blwyddyn.

5.5 Llwybr Cerdded a Beicio Llanfrothen i Benrhyn

Disgwylir ymateb gam Gyngor Tref Penrhyndeudraeth are eu trafodaethau mewn perthynas â'r mater.

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc Gorffennaf 2021 £239.52

TWE £60.00

6.2 Cyflog Clerc Awst 2021 £239.72

TWE £59.80

6.3 Anfoneb Dunn & Ellis 123906 16 Gorffennaf 2021 £59.40

- 6.4 Anfoneb Gwion Ifan 151 am dynnu hen ffens a chlirio mieri a gosod ffens stoc newydd £765.00
- 6.5 Derbyn ad-daliad TAW 2021/22 9 Gorffennaf 2021 £628.44
- 6.6 Derbyn taliad Pritchard & Griffiths 29 Gorffennaf 2021 £1,925.00
- 6.7 Derbyn taliad Pritchard & Griffiths 30 Gorffennaf 2021 £1,800.00
- 6.8 Derbyn ail daliad praesept 20221/22 i'r cyfrif banc, 25 Awst 2021, £4,650.00
- 6.9 Balans yn y banc 31 Awst 2021 £37,635.42
- 6.10 Cyfrifon Banc HSBC

7. **Gohebiaeth**

- Pecyn plannu coed Parc Cenedlaethol Eryri
Gofynnwyd i'r Clerc holi stad Brondanw rhag ofn y byddai ganddynt hwythau ddiddordeb yn y pecyn plannu coed.
- Arolwg Parc Cenedlaethol Eryri ar eu defnydd o'r Gymraeg
Gofynnwyd i'r Clerc lenwi'r holiadur ar ran y Cyngor Cymuned
- Cronfa Gymunedol Eryri
Gofynnwyd i'r Clerc wneud cais am arian grant ar yr un sail a wnaethpwyd yn 2020, sef i gyhoeddi taflenni teithiau cerdded a chael llefydd i barcio beiciau o flaen Siop a Chaffi Llanfrothen
- Hwb – Rhaglen Medi 2021
Derbyniwyd er gwybodaeth

8. **Cynllunio**

Dim

9. **Materion Eraill**

- 9.1 **Ymgynghoriad gostwng terfyn cyflymder ar strydoedd preswyl i 20 mya**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ostwng cyflymder ar strydoedd preswyl i 20 m.y.a.

Gofynnwyd i'r Clerc ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddweud fod y cyngor cymuned yn cefnogi'r argymhellion yn gyffredinol, a nodi hefyd yr angen am barthau 20 m.y.a. yn Llanfrothen yn enwedig drwy Garreg a Rhyd, ble y ceir nifer o gerddwyr.

Cytunwyd i drafod gosod cyfarpar mesur cyflymder ar ffordd Rhyd yng nghyfarfod mis Tachwedd.

9.2 Cefnogaeth i'r Dref Werdd - cais cronfa Pawb a'u le

Cytunwyd i ddanfon llythyr yn cefnogi cais Y Dref Werdd am arian i barhau a'u prosiectau gan gronfa Pawb a'u lle.

9.3 Ardal Ni 2035

Mae Cyngor Gwynedd yn gofyn am farn cyngorau cymuned ar sut i wella eu hardaloedd lleol erbyn 2035

Cytunwyd i ofyn i'r swyddog perthnasol ddod i gyfarfod mis Tachwedd er mwyn trafod y mater ymhellach.

9.4 Ymgynghoriad Llywodraeth ar drethi lleol ar ail gartrefi a llety hunanarlwyo

Penderfynwyd trafod ymateb i'r ymgynghoriad yma yng nghyfarfod mis Tachwedd. Y dyddiad cau yw 17 Tachwedd 2021.

9.5 Hysbysfwrdd Croesor

Mae'r drws ar flaen yr hysbysfwrdd, sy'n agor i'r chwith ac i'r dde, wedi torri ac wedi disgyn i'r llawr. Mae'n edrych yn debyg mai'r colfachau sydd wedi torri, ac felly gobeithir mai gwaith gweddol syml fydd ei drwsio.

Gofynnwyd i'r Clerc gael pris am y gwaith.

9.6 Polisiâu'r Cyngor Cymuned

Mae'r Cyngorydd Nia Povey wedi gwneud rhestr yn crynhoi cynnwys y polisiâu draft a gafwyd gam Un Llais Cymru, ac mae'n gobeithio bod wedi gorffen crynhoi'r cynnwys erbyn y cyfarfod nesaf.

Cytunwyd i'w trafod ymhellach yng nghyfarfod mis Tachwedd.

9.7 Gwefan

Mae'r Cynghorydd Nia Povey wedi bod yn edrych ar dacluso'r wefan ac yn mynd i gysylltu â Cymru 1.net am hyn

9.8 Mynwent Tan Lan

Ar y cyfan mae peidio cael bin yn y fynwent yn gweithio'n dda. Cytunwyd y byddai'n syniad da cael arwydd yn gofyn i bobl fynd a'u sbwriel efo nhw. Bydd angen cytuno ar eiriad. Awgrymwyd y medrai Idris Jones gynhyrchu arwydd, gan ei fod wedi cynhyrchu arwyddion i'r cyngor cymuned yn y gorffennol.

Cytunwyd i drafod y fynwent ymhellach yng nghyfarfod mis Tachwedd.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf –1 Tachwedd 2021 drwy gyfrwng
Microsoft Teams**